4.

Mae'r dydd ar fin glasu,
Y merched sy'n nesu
I drin corff yr Iesu,
Galaru,
Gwisg lân
Ac olew'n eu dwylo
I'w drin a'i dylino
Yn dyner,

Ond yno,
Cyn deffro hen dân
Y wawr arferol, yn y fan
Lle rhoddwyd e i orwedd dan
Ei glwyfau, yn y golau gwan,
Ar lan daear lonydd,

Ni welant mono.
Gwag yw'r bedd.
Na, nid yw corff tywysog hedd
I'w weld.
A chodi'r byd o'r bedd a wna
Ar wedd newydd.